**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 1358 (Cy.134)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig. Mae'n diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (O.S.2002/283 (Cy.34)) (y prif Orchymyn), sydd, am gyfnod dros dro hyd nes 30 Tachwedd 2002, yn datgymhwyso ac yn cymryd lle Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau 1925 (O.S. 1925/1349) (fel y'i diwygiwyd), ac mae'n gwahardd defnyddio tir ac adeiladau ar gyfer crynoadau anifeiliaid oni bai bod trwydded i ganiatáu'r gweithgaredd hwnnw ac oni bai bod ymlyniad wrth ddarpariaethau ei Atodlen.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio -

(a) y diffiniad o "crynhoad anifeiliaid" yn Erthygl 2(d) o'r prif Orchymyn (erthygl 3).

(b) y darpariaethau ym mharagraff 2 o'r Atodlen i'r prif Orchymyn sy'n gymwys yn dilyn crynhoad anifeiliaid er mwyn cael gwared ar y gofyniad bod rhaid i 28 diwrnod fynd heibio cyn y gellir caniatáu i anifeiliaid eraill fod ar y tir ac adeiladau (erthygl 4).

(c) y darpariaethau ym mharagraff 6 o'r Atodlen i'r prif Orchymyn er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r tir ac adeiladau gael ei lanhau a'i ddiheintio ymhellach os yw yn cael ei halogi am unrhyw reswm ar ôl iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio yn unol â'r prif Orchymyn (erthygl 5).

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi ei baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 1358 (W.134)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) (Amendment) Order 2002

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order applies only to Wales. It amends the Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) Order 2002 (S.I. 2002/283 (W.34)) (the principal Order), which for a temporary period until 30 November 2002 disapplies and replaces the Markets, Sales and Lairs Order 1925 (S.I. 1925/1349) (as amended), and prohibits the use of premises for animal gatherings unless there is a licence permitting that activity and unless the provisions which are set out in its Schedule are adhered to.

This Order amends -

(a) the definition of "animal gathering" at article 2(e) of the principal Order (article 3).

(b) the provisions in paragraph 2 of the Schedule to the principal Order that apply following an animal gathering, so as to remove the requirement that 28 days must have passed before other animals can be allowed on the premises (article 4).

(c) the provisions in paragraph 6 of the Schedule to the principal Order so as to require the premises to undergo further cleansing and disinfection if for any reason they become contaminated after they have been cleansed and disinfected in accordance with the principal Order (article 5).

A regulatory appraisal has not been prepared for this Order.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 1358 (Cy.134)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002

*Wedi'i wneud* *14 Mai 2002*

*Yn dod i rym* *15 Mai 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer ar y cyd y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7 a 8 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (**a**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002; mae'n gymwys i Gymru yn unig ac mae'n dod i rym ar 15 Mai 2002.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn-

(a) ystyr "y prif Orchymyn" ("*the principal Order*") yw Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(**b**); a

(b) mae "cyfarpar" (*equipment*") yn cynnwys corlannau a chlwydi.

(a) 1981 p.22. Gweler adran 86(1) ar gyfer y diffiniadau o "the Ministers" a "the Minister". Mewn perthynas â Chymru, trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac i'r graddau yr oedd y swyddogaethau hynny yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, trosglwyddwyd hwy i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd holl swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ymhellach i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(b) O.S. 2002/283 (Cy.34).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 1358 (W.134)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

## The Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) (Amendment) Order 2002

*Made* *14th May 2002*

*Coming into force* *15th May 2002*

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, acting jointly in exercise of the powers conferred on them by sections 1, 7, and 8 of the Animal Health Act 1981(**a**), make the following Order:

**Title, application, commencement**

**1**. This Order may be cited as the Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) (Amendment) Order 2002; it applies to Wales only and comes into force on 15th May 2002.

**Interpretation**

**2**. In this Order -

(a) "the principal Order" ("*y prif Orchymyn*") means the Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) Order 2002(**b**);

(b) "equipment" ("*cyfarpar*") shall include pens and hurdles.

(a) 1981 c. 22. See section 86(1) for the definitions of "the Ministers" and "the Minister". In relation to Wales, the functions of "the Ministers" so far as exercisable by the Secretary of State for Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I.1999/672); and so far as exercisable by the Secretary of State for Scotland were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999, S.I. 1999/3141. All functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were then further transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

(b) S.I. 2002/283 (W.34).

**Diwygio erthygl 2**

**3**.-(1) Bydd erthygl 2 y prif Orchymyn yn cael ei diwygio yn unol â darpariaethau'r erthygl hon.

(2) Dilëwch y geiriau ", oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall".

(3) Ym mharagraff (d), dilëwch y geiriau "yn achos gwartheg stôr,".

**Diwygio Paragraff 2 o'r Atodlen**

**4**. Rhowch y paragraff dilynol yn lle paragraff 2 o'r Atodlen -

"**2**. Pan fydd yr anifail olaf mewn crynhoad anifeiliaid wedi ymadael y tir a'r adeiliadau, ni chaiff neb

(a) yn ddarostyngedig i baragraff 3 isod, ganiatáu i anifeiliaid ddod i'r tir a'r adeiladau hynny nes y bydd yr holl waith glanhau halogiad, sy'n weladwy ar y cyfarpar yr oedd gan yr anifeiliaid yn y crynhoad fynediad iddo, wedi'i gwblhau; neu

(b) symud o'r tir a'r adeiladau hynny unrhyw gyfarpar yr oedd gan anifeiliaid yn y crynhoad fynediad iddo, oni bai -

(i) bod gwaith glanhau'r halogiad gweladwy y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) uchod oddi ar y cyfarpar sydd i'w symud oddi yno wedi ei gwblhau a bod y cyfnod o 28 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau; neu

(ii) bod y cyfarpar sydd wedi cael ei symud oddi yno wedi cael ei ysgubo neu ei grafu'n lân, wedi ei lanhau drwy olchi a bod diheintydd a gymeradwywyd wedi ei daenu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr."

**Diwygio paragraff 6 o'r Atodlen**

**5**. Ym mharagraff 6 o'r Atodlen, yn lle'r geiriau "(am reswm nad yw'n ymwneud â phresenoldeb anifeiliaid yno)" rhowch y geiriau a ganlyn -

", yn dilyn y tro diwethaf i'r tir a'r adeiladau gael eu glanhau a'u diheintio yn unol â pharagraffau 4 a 5 uchod,".

**Amendment of article 2**

**3**.-(1) Article 2 of the principal Order shall be amended in accordance with the provisions of this article.

(2) The words ", unless the context otherwise requires" shall be deleted.

(3) In paragraph (e) the words "in the case of store cattle," shall be deleted.

**Amendment of Paragraph 2 of the Schedule**

**4.**- Paragraph 2 of the Schedule shall be replaced by the following paragraph -

"**2**. Once the last animal at an animal gathering has left the premises, no person shall -

(a) subject to paragraph 3 below, allow animals onto those premises until the cleansing of visible contamination on all equipment to which the animals at the gathering had access has been completed; or

(b) remove from those premises any equipment to which animals at the gathering had access unless -

(i) the cleansing of visible contamination referred to in sub-paragraph (a) above has been completed on the equipment to be removed and the period of 28 days has elapsed since its completion; or

(ii) the equipment to be removed has been swept or scraped clean, cleansed by washing and an approved disinfectant applied in accordance with manufacturers instructions."

**Amendment of paragraph 6 of the Schedule**

**5.** In paragraph 6 of the Schedule for the words "(for a reason other than the presence of animals there)" there shall be substituted the following-

", following the last occasion on which the premises were cleansed and disinfected in accordance with paragraphs 4 and 5 above,".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

14 Mai 2002

*D Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

14th May 2002

The Presiding Officer of the National Assembly

14 Mai 2002

*Lord Whitty*

Is-ysgrifennydd Seneddol

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

14th May 2002

Parliamentary Under Secretary of State

Department for Environment, Food and Rural Affairs

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090499-0

9 780110 904993

**£1.75**

W0095/06/02 ON